# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 20 Mai 2020

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6327

## 278

Dechreuodd yr eitem am 13.32

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r Cyfarfod Llawn rhithwir a dywedodd fod y Cyfarfod Llawn hwn, a gynhelir drwy gynhadledd fideo yn unol â Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, yn gyfystyr â thrafodion y Senedd at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dywedodd y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, y bydd rhai o ddarpariaethau Rheol Sefydlog 34 yn gymwys - nodwyd pob un ohonynt ar yr agenda.

Dywedodd y Llywydd fod y cyhoedd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, wedi cael eu gwahardd rhag mynychu'r Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ond byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw a byddai cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Llywydd hefyd y byddai Rheolau Sefydlog yn ymwneud â threfniadau a threfn busnes yn y Cyfarfod Llawn yn gymwys i'r cyfarfod hwn.

## 1 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 13.32

## 2 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 13.33

## 3 Cwestiynau Amserol

Dechreuodd yr eitem am 14.17

**Gofyn i'r Gweinidog Addysg**

**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyfodol y sector addysg uwch, yn dilyn adroddiad Canolfan Llywodraethiant Cymru am effaith ariannol Covid-19 ar brifysgolion yng Nghymru?

**Gofyn i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol**

**Delyth Jewell (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cymorth a'r adnoddau fydd ar gael i awdurdodau lleol wrth ddatblygu'r capasiti i olrhain cysylltiadau yn dilyn cyhoeddi strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer codi'r cyfyngiadau presennol?

## 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Ymateb i Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 14.32

## Cynnig i atal Rheolau Sefydlog ( 5 munud)

Dechreuodd yr eitem am 15.25

**NNDM7325** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheolau Sefydlog 33.6 a 33.8:

Yn atal Rheolau Sefydlog 12.20(i), 12.22(i) a'r rhan honno o Reol Sefydlog 11.16 sy'n ei gwneud yn ofynnol bod y cyhoeddiad wythnosol o dan Reol Sefydlog 11.11 yn darparu'r amserlen ar gyfer busnes yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos ganlynol, er mwyn caniatáu i ddadl ar NNDM7326 gael ei hystyried yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 20 Mai 2020.

**Cynhaliwyd pleidlais at y cynnig.**

**Fel y nodir ar yr Agenda, cynhelir pleidleisiau heddiw yn unol â Rheol Sefydlog 34.11.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 56 | 1 | 0 | 57 |

**Oherwydd y cafodd y cynnig ei gefnogi gan ddau draean o'r Aelodau a oedd yn pleidleisio, derbyniwyd y cynnig.**

## 5 Dadl – COVID19 – Llacio'r Cyfyngiadau ar ein Cymdeithas a'n Heconomi: Dal i Drafod

Dechreuodd yr eitem am 15.40

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**Fel y nodir ar yr Agenda, cynhaliwyd pleidleisiau heddiw yn unol â Rheol Sefydlog 34.11.**

**Cynhaliwyd y pleidleisiau trwy alw'r gofrestr.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gydweithio â llywodraethau eraill yn y Deyrnas Unedig fel rhan o ddull cydlynol pedair cenedl o godi'r cyfyngiadau symud.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 47 | 0 | 10 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 2 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn cydnabod y rhai sydd wedi colli eu bywydau yn ystod y pandemig ac yn estyn ei chydymdeimlad dwysaf â'r rhai y mae profedigaeth yn effeithio arnynt.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 57 | 0 | 10 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3** – Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddiweddaru Llacio’r Cyfyngiadau ar ein Cymdeithas a’n Heconomi, i gynnwys:

a) amserlenni dangosol ar gyfer codi'r mesurau cyfyngiadau symud;

b) manylion y cerrig milltir a'r targedau sydd i'w cyflawni cyn codi pob mesur;

c) sefydlu tasgluoedd mewn adrannau gweinidogol allweddol i oruchwylio'r gwaith o weithredu'r cynllun; a

d) cynllun ariannol priodol i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynllun.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 39 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4** – Sian Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi'r alwad gan bedwar Prif Gwnstabl a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru i'r Prif Weinidog sicrhau bod y dirwyon uchaf y gall yr heddlu eu dyroddi am beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau iechyd cyhoeddus, yn cael eu cynyddu er mwyn sicrhau bod cyfyngiadau yn cael eu gorfodi'n gadarn cyhyd ag y maent ar waith.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 5 | 1 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 – [Sian Gwenllian (Arfon)]**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu ei bod yn angenrheidiol sicrhau bod system gadarn o brofi ac olrhain cysylltiadau ar waith er mwyn codi'r cyfyngiadau'n sylweddol.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 1 | 5 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Yn unol â Rheol Sefydlog 12.23 (iii), ni ddewiswyd gwelliannau 6, 7 ac 8 a gyflwynwyd i'r cynnig hwn.**

**Gwelliant 9 – [Sian Gwenllian (Arfon)]**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i bwyso ar Lywodraeth y DU i gyflwyno incwm sylfaenol cyffredinol ac i archwilio pob llwybr arall sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwaelodlin o gymorth ariannol ar gael i bobl Cymru drwy gydol y cyfnodau o gyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 0 | 17 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 9.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NNDM7326** [Rebecca Evans (Gwyr)]

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cyhoeddi Llacio'r Cyfyngiadau ar ein Cymdeithas a'n Heconomi: Dal i Drafod, sy'n disgrifio sut y gall Cymru ddechrau llacio'r cyfyngiadau yn raddol

2. Yn credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gydweithio â llywodraethau eraill yn y Deyrnas Unedig fel rhan o ddull cydlynol pedair cenedl o godi'r cyfyngiadau symud.

3. Yn cytuno y dylai iechyd y cyhoedd fod yn ystyriaeth flaenllaw mewn unrhyw benderfyniadau ynghylch pryd a sut y caiff y rheoliadau ynghylch aros gartref gael eu llacio

4. Yn cydnabod y rhai sydd wedi colli eu bywydau yn ystod y pandemig ac yn estyn ei chydymdeimlad dwysaf â'r rhai y mae profedigaeth yn effeithio arnynt.

5. Yn diolch i bobl Cymru am eu cefnogaeth a'u hymrwymiad parhaus er mwyn lleihau lledaeniad y coronafeirws

6. Yn canmol gwaith caled ac ymroddiad gweithwyr hanfodol ar draws Cymru yn ystod y pandemig.

7. Yn cefnogi'r alwad gan bedwar Prif Gwnstabl a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru i'r Prif Weinidog sicrhau bod y dirwyon uchaf y gall yr heddlu eu dyroddi am beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau iechyd cyhoeddus, yn cael eu cynyddu er mwyn sicrhau bod cyfyngiadau yn cael eu gorfodi'n gadarn cyhyd ag y maent ar waith.

8. Yn credu ei bod yn angenrheidiol sicrhau bod system gadarn o brofi ac olrhain cysylltiadau ar waith er mwyn codi'r cyfyngiadau'n sylweddol.

9. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i bwyso ar Lywodraeth y DU i gyflwyno incwm sylfaenol cyffredinol ac i archwilio pob llwybr arall sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwaelodlin o gymorth ariannol ar gael i bobl Cymru drwy gydol y cyfnodau o gyfyngiadau ar ein cymdeithas a'n heconomi.

**Canlyniad y bleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd oedd:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 4 | 13 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Coronafeirws (COVID-19) - Tynnwyd yn ôl

## Cytunodd y Senedd, o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân

## 7 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Dechreuodd yr eitem am 17.26

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**Fe y nodir ar yr agenda, cynhaliwyd y pleidleisiau heddiw yn unol â Rheol Sefydlog 34.11.**

**Cynhaliwyd y pleidleisiau trwy alw'r gofrestr.**

**NDM7322** Rebecca Evans (Gwyr)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Ebrill 2020.

**Fel y nodir ar yr Agenda, cynhelir pleidleisiau heddiw yn unol â Rheol Sefydlog 34.11.**

**Cynhaliwyd y pleidleisiau trwy alw'r gofrestr.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 51 | 0 | 6 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 8 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**Fel y nodir ar yr agenda, cynhaliwyd y pleidleisiau heddiw yn unol â Rheol Sefydlog 34.11**

**Cynhaliwyd y pleidleisiau trwy alw'r gofrestr.**

**NDM7323 Rebecca Evans (Gwyr)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 3) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mai 2020.

**Fel y nodir ar yr Agenda, cynhelir pleidleisiau heddiw yn unol â Rheol Sefydlog 34.11.**

**Cynhaliwyd y pleidleisiau trwy alw'r gofrestr.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 40 | 11 | 6 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 9 Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020

Dechreuodd yr eitem am 17.59

**NDM7324 Rebecca Evans (Gwyr)**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

1. Yn cymeradwyo Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr (Rhanddirymiad Tyfu Amrywiaeth o Gnydau) (Cymru) 2020 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Ebrill 2020.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 10 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.01

**Fel y nodir ar yr Agenda, cynhaliwyd pleidleisiau heddiw yn unol â Rheol Sefydlog 34.11.**

**Enwebodd pob grŵp gwleidyddol un Aelod o'r grŵp neu'r grwpiad i gario'r un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp. Yn achos grŵp gwleidyddol sydd â rôl weithredol, bydd yr enwebai yn cario'r un nifer o bleidleisiau ag sydd o aelodau'r grŵp hwnnw ynghyd ag unrhyw aelodau eraill o'r llywodraeth. Roedd Aelodau nad ydynt yn perthyn i grŵp neu grwpiad yn pleidleisio drostynt eu hunain.**

Daeth y cyfarfod i ben am 18.13

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 11.00, Dydd Mercher, 3 Mehefin 2020**